



Datblygu strategaeth ddigidol newydd i Gymru

YNGLŶN Â CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol i'r trydydd sector yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw bod y trydydd sector a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb. Ein cenhadaeth yw bod yn gatalydd i newid cadarnhaol, trwy gysylltu, hwyluso a dylanwadu.
2. Rydym yn falch o gael y cyfle i ymateb i ymgysylltiad Llywodraeth Cymru ar ei strategaeth ddigidol newydd i Gymru.

PWYNTIAU CYFFREDINOL

3. Rydym yn croesawu'r egwyddorion yn y strategaeth hon a'r uchelgais i ddefnyddio pŵer digidol er mwyn cefnogi llesiant yng Nghymru. Yn benodol, croesawn y datganiad 'nad yw digidol yn golygu cyfrifiaduron yn unig – mae'n ymwneud â phobl'. Cytunwn yn llwyr â hyn.
4. Dyna pham bod angen i'r llywodraeth gynnwys y sector gwirfoddol. Pobl, cyfiawnder cymdeithasol a gwella pob agwedd ar lesiant

sydd wrth wraidd y sector. Mae diffyg unrhyw gyfeiriad o gwbl, bron (heblaw am un ar ddiwedd y blog olaf) tuag at y sector gwirfoddol yng ngwybodaeth y strategaeth ddigidol yn fwlch amlwg a ddylai fod yn achos pryder i ni gyd. Fodd bynnag, mewn achosion eraill mae Llywodraeth Cymru yn eiriolwr cadarn o werth y sector gwirfoddol a'i holl amrywiaeth. Byddai CGGC yn croesawu blog o safbwynt y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip.

5. Mae hyn i gyd yn bwysig gan fod y sector gwirfoddol yn rhan allweddol o'n cymdeithas. Mae ein Hwb Data ar y sector gwirfoddol yn dechrau peintio darlun sy'n dangos hyn. Mae mudiadau gwirfoddol yn cyflogi tua 100,000 o bobl yng Nghymru, gyda 28% o bobl yn gwirfoddoli bob blwyddyn. Mae incwm elusennol yng Nghymru dros £1.2bn, heb gynnwys rhannau sylweddol o'r sector gwirfoddol megis Cymdeithasau Tai. Mae gwerth cyfatebol amser gwirfoddolwyr yn uwch eto – amcangyfrifir ei fod dros 3% o gynnyrch domestig gros (GDP) Cymru.
6. Ni ellir diffinio gwerth y sector yn nhermau arian yn unig, wrth gwrs. Mae'n cyffwrdd â'n bywydau ni i gyd – o feithrinfeydd i hosbisau, grwpiau celfyddydol a chlybiau chwaraeon a mudiadau cymdeithasol sydd wedi llunio ein hawliau, ein diwylliannau a'n hamgylchedd. Mae hyblygrwydd ac arloesedd yn nodweddion amlwg yn ein sector. Mae'n fan lle gall pobl ddod ynghyd yn wirfoddol er mwyn gwneud gwahaniaeth i'r materion sy'n bwysig iddyn nhw. Yn aml, caiff y bobl hynny eu gyrru gan yr awydd i ganfod datrysiadau i faterion sy'n achosi pryder iddynt, gan greu ceffylau blaen ar gyfer yr hyn ddaw, yn ddiweddarach, yn wasanaethau cyhoeddus craidd. Mae hyn yn rhan o stori'r GIG yng Nghymru.
7. Mae'r egwyddorion sy'n ymwneud â'r gwerth a ddaw o arloesedd digidol yr un fath i fudiadau gwirfoddol. Os yw'r llywodraeth yn gweithio gyda hwy i fanteisio ar fuddion systemau digidol – wedi'u cynllunio'n dda, yn ddiogel ac yn seiliedig ar anghenion y defnyddiwr – mae ganddo botensial enfawr i greu ac ehangu ar lesiant. Os nad yw'r strategaeth yn cysylltu â'r sector gwirfoddol, fodd bynnag, bydd yn colli rhannau allweddol o'n heconomi a'n

gwasanaethau, gan lesteirio'i uchelgais o'r dechrau.

8. Fel gyda sectorau eraill, i wneud hyn rhaid cael rhywfaint o fuddsoddi er mwyn darparu arweinyddiaeth, ymgysylltu a darparu datrysiadau ymarferol. Mae digonedd o fudiadau gwirfoddol sy'n awyddus i weithio gyda'r llywodraeth a chyda'i gilydd er mwyn cyflawni hyn. Yn eu plith mae cyrff seilwaith megis CGGC a Chanolfan Cydweithredol Cymru, mudiadau arbenigol megis Promo Cymru yn ogystal â'r miloedd o fudiadau gwirfoddol sy'n mynd i'r afael â dulliau digidol yn eu gwaith o ddydd i ddydd mewn cymunedau ledled Cymru.
9. Mae digonedd o enghreifftiau o sut i wneud hyn yn dda o'r tu mewn i Gymru, yn ogystal ag o bob cwr o'r DU ac yn rhyngwladol. Mae mudiadau Tech for Good a thechnoleg cymdeithasol eisoes yn bodoli. Ond mae angen cefnogaeth ar y sector er mwyn manteisio arnynt. Nid oes sôn yn y strategaeth ddrafft am sut i wneud hyn.
10. Rydym yn croesawu'r agweddau cynhwysol ac agored yn y blogiau. Fodd bynnag, mae'r amserlen a gynigiwyd ar gyfer ymgysylltu yn amhosibl o fyr. Mae cynhwysiant yn egwyddor i'w groesawu o fewn y strategaeth, ond mae angen gwahanol ddulliau o weithredu hyn yn ymarferol. Gwerthfawrogwn mai siwrnai yw hon a gobeithiwn y gallwn nawr gyd-weithio â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ymglymiad dyfnach â'r sector gwirfoddol.

CENHADAETH 1 – GWASANAETHAU DIGIDOL

11. Bydd y strategaeth yn gryfach os yw'n cydnabod gwerth y gwasanaethau a ddarperir gan fudiadau gwirfoddol. Ceir perthnasau pwysig hefyd rhwng y cyfraniad a wneir gan fudiadau gwirfoddol a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus – gan gynnwys llunio polisi a dal cyrff cyhoeddus i gyfrif. Gall systemau digidol gefnogi'r ddau. Er enghraifft, mae mudiadau gwirfoddol yn dal tystiolaeth/data perthnasol i hysbysu gwasanaethau. Yn holl-bwysig, maent hefyd yn gweithio gyda phobl sy'n medru darparu

adborth ansoddol wedi'i seilio ar brofiad personol.

12. Mae darpariaeth data agored a hygyrch gan gyrrff cyhoeddus yn bwysig ar gyfer atebolrwydd a chyfranogiad cyhoeddus. Bydd yr Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y Maes Digidol arfaethedig, yn benodol, yn dibynnu ar hyn.
13. Mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu comisiynu, eu trefnu a'u cyflawni ar y cyd fel bod yr holl randdeiliaid yn teimlo ymdeimlad o berchnogaeth go iawn.
14. Rydym yn croesawu safonau digidol cyffredin. Mae mudiadau gwirfoddol hefyd yn darparu gwasanaethau a ariennir gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid i'r llywodraeth sicrhau yn ogystal bod y rhan hon o'r sector gwirfoddol wedi'i chynnwys yn llawn ac yn medru cwrdd â'r safonau.
15. Mae'n rhaid i bobl sy'n profi problemau synhwyraidd sy'n dymuno cael mynediad i wasanaethau yn ddigidol fedru gwneud hynny. Mae'n bosibl y bydd angen cynnig cefnogaeth i ddarparwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.
16. Wrth ymgymryd â'r dull hwn o weithredu, rhaid i Lywodraeth Cymru ymdrechu i sicrhau nad yw'r un unigolyn yn cael ei adael ar ôl. Mae'n bosibl y bydd rhai pobl, megis pobl hŷn neu'r rheini nad ydynt yn siarad Saesneg neu Gymraeg, yn amharod neu'n methu â chael mynediad i wasanaethau digidol, felly rhaid cwrdd â'u gofynion nhw mewn ffyrdd eraill.

CENHADAETH 2 – ECONOMI DDIGIDOL

17. Mae mudiadau gwirfoddol yn rhan bwysig o'n heconomi (gweler pwynt 5 uchod). Bydd angen iddynt hwythau hefyd addasu i newidiadau ym myd gwaith.
18. Gallai'r trawsnewidiadau yn ein gweithleoedd gael effaith niweidiol ar lefelau diweithdra a thangyflogaeth, yn enwedig

ymsg rhai grwpiau o bobl a lleoedd. Mae Andy Haldane a Pro bono Economics wedi amlygu'r potensial sydd i weithredu gwirfoddol a chymdeithasol chwarae rhan bwysig wrth ddarparu ffynonellau amgen o bwrpas a chyflawniad.

19. Mae gan fudiadau'r sector rôl allweddol i'w chwarae wrth lunio'r math o economi ddigidol rydym am ei gweld yn y dyfodol a'r gwerthoedd sy'n sail iddi. Rhaid iddynt beidio â chael eu gadael allan o'r clystyrau arloesedd digidol a amlygwyd gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth. Ceir llawer o brofiad, gwybodaeth a sgiliau o fewn y sector a allai helpu i yrru trawsnewidiad.
20. Mae mudiadau gwirfoddol yn hynod amrywiol. Un o'r nodweddion sy'n eu huno yw'r ffaith eu bod 'wedi'u gyrru gan werth a'u hysgogi gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol' (Cynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru). Mae arnom angen y mudiadau hyn er mwyn llunio'n weithredol y gwerthoedd sydd wrth wraidd yr economi ddigidol newydd hon. Dylai'r llywodraeth fuddsoddi mewn ymgysylltu'n well â mudiadau gwirfoddol er mwyn galluogi hyn.
21. Trwy gofrestru i fod yn Llywodraeth yr Economi Llesiant, mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei uchelgais ar gyfer economi gynhwysol sy'n cefnogi amgylchedd naturiol sy'n ffynnu. Cefnogir hyn gan y Gynghrair Economi Llesiant sydd ar ei thwf yng Nghymru. Mae systemau Digidol hefyd yn ffurfio rhan o gynlluniau'r llywodraeth ar gyfer adferiad gwyrdd a chyfiawn. Fodd bynnag, nid yw'r uchelgais hon yn cael ei hadlewyrchu'n glir yn y rhan hon o'r strategaeth fel ag y mae. Ar hyn o bryd, mae'r genhadaeth yn ymwneud â thwf economaidd heb gyfeiriad at lesiant economaidd. Os yw'r ddarpariaeth am adlewyrchu'r gwerthoedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hamlinellu iddi'i hun, rhaid mynd i'r afael â hyn yn y strategaeth derfynol.
22. Eto, mae'r buddion a amlinellir ar hyn o bryd i fusnesau yn berthnasol i fudiadau gwirfoddol hefyd. Nid busnesau traddodiadol yn unig fydd yn gweithio mewn modd hyblyg ac o bell yn ein

cymunedau – yn darparu gwasanaethau, swyddi a hybiau cymunedol. Mae busnesau cymunedol a mudiadau eraill y sector gwirfoddol oll yn rhan o'r tapestri hwn. Mae'r canlyniadau presennol yn wannach am nad ydynt yn cydnabod y sector gwirfoddol a'i rôl yn yr ecosystem honno o dalent ac arloesedd.

23. Gellid cryfhau'r canlyniadau hyn gyda myfyrio clir ar egwyddorion yr economi lesiant, er enghraifft economi sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ar draws cymdeithas. Croesawn yr uchelgais ar gyfer economi ddigidol sy'n lleihau allyriadau carbon. Fodd bynnag, nid ydym yn croesawu'r cyswllt syml ac unigol â thrafnidiaeth. Rhaid i effeithiau carbon ac amgylcheddol systemau digidol gael eu hystyried a rhaid mynd i'r afael â hwy yn y cylch hwn.

CENHADAETH 3 – DATA A CHYDWEITHREDU

24. Rydym yn croesawu'r ffocws ar ddata a chydweithredu. Yn sgil y pandemig gwelwyd enghreifftiau o bobl yn gweithio'n gyflym er mwyn rhannu data ar draws mudiadau, gan arwain at bobl yn llwyddo i gael mynediad i wasanaethau na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mae data agored, hygyrch yn bwysig ar gyfer llywodraeth atebol a chyfranogol. Mae gwarchod data unigolion yn fater y mae nifer o fudiadau gwirfoddol yn poeni yn ei gylch.
25. Byddem yn croesawu cyfleoedd i adeiladu capasiti yn ein sector yn seiliedig ar fentrau megis Ymchwil Data Gweinyddol (Administrative Data Research) WISERD, menter i wneud y mwyaf o botensial data gweinyddol fel adnodd ymchwil. Sut gallwn ni gysylltu mudiadau gwirfoddol â'r mewnwelediadau sy'n cael eu cynhyrchu a'u helpu i wneud defnydd ohonynt? Eto, dyma ble gallai rhywfaint o gapasiti yn y sector gwirfoddol helpu i gysylltu â byd o gyfleoedd ac arloesedd posibl sydd eisoes yno.
26. Ceir potensial hefyd i fudiadau gwirfoddol gyfrannu data gwerthfawr at adnodd a rennir. Er enghraifft, mae gan Cyngor ar Bopeth Cymru ffynhonnell ddata gyfoethog sy'n darparu

mewnwelediad i faterion cymdeithasol yng Nghymru. Mae gan Grŵp Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector gysylltiadau sydd wedi'u sefydlu ers tro â swyddogion Llywodraeth Cymru a fyddai'n ddefnyddiol wrth rannu data.

CENHADAETH 4 – CYNHWYSIANT DIGIDOL

27. Mae cynhwysiant a chyfiawnder cymdeithasol yn fater craidd i'r rhan fwyaf o'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Wrth i'r pandemig orfodi gwasanaethau ar-lein, daeth allgáu digidol a'r anghydraddoldebau, a'r caledi a ddaw yn sgil hynny, i'r amlwg. Mae oed, tlodi a hil yn ffactorau allweddol mewn allgáu cymdeithasol.
28. Mae'r pwyslais yn y strategaeth hon ar anghenion defnyddwyr - ac ar y ffaith fod digidol yn golygu mwy na chyfrifiaduron, ond pobl - yn sylfaenol ac i'w groesawu. Byddai cynnwys mudiadau gwirfoddol, gwrando ar eu profiadau a chydweithredu ar ddatrysiadau heb os yn cryfhau darpariaeth ac yn gwella canlyniadau. Dylai mudiadau gwirfoddol fod yn llais ymgyrchu cryf dros gyfiawnder cymdeithasol o fewn y byd digidol. Rydym yn awyddus i weithio gydag eraill er mwyn galluogi'r llais cryfach hwnnw. Chwaraeodd Canolfan Cydweithredol Cymru rôl ganolog wrth wella cynhwysiant digidol yng Nghymru, gan feddu ar wybodaeth ac arbenigedd cadarn a fydd yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion o fewn y genhadaeth hon.
29. Mae hon yn adran hynod allweddol, sy'n cynnwys cysylltiadau ar draws y strategaeth – gellid ei chryfhau trwy ychwanegu canlyniadau clir fel yn y meysydd eraill. Byddem yn croesawu ymgysylltu pellach â Llywodraeth Cymru a'r sector ynglŷn â hyn a byddem yn hapus o gynnig ein cefnogaeth. Rydym wedi ymuno â Chynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, a arweinir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, a byddai hwn yn fforwm da er mwyn archwilio'r pwnc hwn gyda'n gilydd.

CENHADAETH 5 – CYSYLLTEDD DIGIDOL

30. Mae ein haelodau, ac ymgysylltu ehangach â'r sector gwirfoddol, wedi amlygu'r pwnc hwn fel un hynod bwysig. Mae'r pandemig wedi amlygu anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli ac yn cynyddu eu heffeithiau.
31. Bu mudiadau gwirfoddol – gan gynnwys mentrau cymdeithasol – yn weithredol wrth ddarparu datrysiadau i gymunedau ac ymgyrchu dros newid.
32. Gallai'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol helpu penderfynwyr i ystyried yr effaith ar anghydraddoldeb a'u dal i gyfrif.

CENHADAETH 6 – SGILIAU DIGIDOL

33. Rydym yn croesawu'r genhadaeth ar sgiliau digidol ac ar adeiladu galluoegrwydd a hyder. Mae hyn yn allweddol ac mae'n neges yr ydym wedi ei derbyn gan ein haelodau. Bron bod y tawelwch cyffredinol ynghylch y sector gwirfoddol ar draws gweddill y strategaeth yn cael ei helaethu gan yr un gyfeiriadaeth yn y fan hon.
34. Mae anghenion mudiadau gwirfoddol o ran sgiliau digidol, hyder a galluoegrwydd yn debyg i anghenion busnesau a'n gobaith yw y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y fersiwn derfynol. Mae arnom angen hyder mewn cynllunio a datblygu modelau digidol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau o ddefnyddio technoleg ddigidol er lles – ac er mwyn ymgysylltu â chronfa dalent â sgiliau uchel a ddatblygwyd yng Nghymru. Yn yr un modd, dylid annog mudiadau gwirfoddol i fuddsoddi yn eu gweithlu.
35. Caiff pobl ifanc eu hysgogi fwyfwy i wneud gwahaniaeth ac i fod â phwrpas. Byddai bod yn arweinydd arloesedd digidol er lles yn denu pobl sy'n meddu ar sgiliau uchel i swyddi yng Nghymru a chyfleoedd i gyfrannu'u sgiliau trwy weithredu gwirfoddol.

PWYNTIAU ERAILL

36. Mae digonedd o enghreifftiau y gallwn ddysgu ohonynt yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol ynghylch arloesedd digidol yn y sector gwirfoddol. Mae gan ein cydweithwyr yn SCVO ac NICVA raglenni yn ymwneud â systemau digidol tra bod SCVO wedi datblygu rhaglen uchel ei gwerth ar arweinyddiaeth ddigidol a allai fod yn fodel i Gymru. Mae nifer o ymddiriedolaethau a sefydliadau wedi datblygu ffrydiau cyllido yn ymwneud â systemau digidol a fydd yn darparu enghreifftiau a dysgu (gweler Comic Relief, Sefydliad Paul Hamlyn a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol).
37. Gallwn ddefnyddio'r mudiadau technoleg cymdeithasol a Tech for Good, a chreu cysylltiad â rhwydweithiau fel Catalyst, cynghrair o fudiadau cymdeithas sifil, cyllidwyr ac asiantaethau digidol. Mae gan CAST, Canolfan Cyflymu Technoleg Ddigidol (Centre for Acceleration of Social Technology), arbenigedd a phrofiad enfawr yng Nghymru. Ac wrth gwrs, mae Canolfan Cydweithredol Cymru a'i gwaith ym maes digidol dros nifer o flynyddoedd wedi darparu sawl gwers bwysig i'r sector.
38. Cafodd yr anawsterau a achosir gan allgáu digidol ei godi gan ein haelodau dros ar ôl tro gydol y pandemig a byddem yn croesawu'r cyfle i'w cynnwys nhw mewn sgysiau â'r llywodraeth.
39. Byddai'n fuddugoliaeth gyflym pe gellid cysylltu'r sector gwirfoddol â mentrau cyfredol. Mae cymaint eisoes yn digwydd a chymaint i elwa ohono o gynnwys y sector gwirfoddol. Byddai potensial i lawer o gynnydd gael ei wneud mewn dim o dro. Fodd bynnag, mae hyn yn cysylltu yn ôl â'r angen am rywfaint o fuddsoddiad mewn arweinyddiaeth a rhaglenni a all ymestyn allan, ymgysylltu a galluogi mudiadau gwirfoddol.
40. Mae CGGC yn cefnogi'r Cod Ymarfer Digidol i Elusennau, sy'n cynnwys fframwaith a meincnodau i elusennau weithio tuag atynt yng nghyswllt systemau digidol, ynghyd ag adnoddau er mwyn diffinio'u camau nesaf ac arweiniad ar rannu arfer orau. Carem i Lywodraeth Cymru ystyried sut gall y Cod gefnogi ymglymiad y

sector gwirfoddol â'r strategaeth ddigidol newydd.

41. Dylai'r strategaeth derfynol ddangos yn glir sut y bydd yn cyfrannu tuag at adeiladu'r Economi Sylfaenol.

DYCHMYGU GWELL DYFODOL

42. Mae CGGC yn rhan o grŵp o bobl o fewn a thu hwnt i'r sector gwirfoddol yng Nghymru sy'n meddwl ynglŷn â sut gallai ein sector chwarae rhan mewn llunio gwell dyfodol. Fel rhan o hyn, rydym yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn datblygu a pheilota offeryn rhagolwg cymunedol. Mae hi'n ddyddiau cynnar, ond un o fuddion defnyddio offerynau'r dyfodol yw y gall ein helpu i ddychmygu'r dyfodol yn well ac i amlinellu sut gallwn ni lunio hynny. Mewn byd o ansicrwydd sylweddol, lle mae nifer o bobl yn ymdopi o ddydd i ddydd, gallai'r mathau hyn o offerynau brofi'n ddefnyddiol wrth helpu i ymgysylltu mudiadau yn y materion mwyaf o ran llunio systemau digidol yng Nghymru.

TRAFODAETH

43. Byddai CGGC yn falch o drafod yr uchod neu unrhyw bwyntiau perthnasol eraill â Gweinidogion, pwyllgorau neu swyddogion pe dymunir.

Anna Nicholl

Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu'r Sector, CGGC

Ionawr 2021